

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

7 Chwefror 2018

Yn Bresennol: Mrs G Hayward (Cadeirydd)

Mr A Archer, Cynghorydd P Baker, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd P Harries, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M James, Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, Mr AE Sangster a'r Cynghorydd M Williams.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd Mrs D Clements adeg ystyried y materion oedd yn codi o'r cofnodion (*cyfeirir at hyn yng Nghofnod 4*)]

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.55am)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M Evans, Mrs J James, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland. Dywedodd y Cynghorydd Mrs D Clements bod y traffig trwm wedi peri iddi gyrraedd yn hwyr.

## 2. Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw ddatgan buddiannau.

## 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 29<sup>ain</sup> o Dachwedd 2017 a'r Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar y 13<sup>eg</sup> o Ragfyr 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 29<sup>ain</sup> o Dachwedd 2017 ac ar y 13<sup>eg</sup> o Ragfyr 2017.

## 4. Materion yn codi o'r cofnodion

### (a) Canolfan Ymwelwyr Trefdraeth (Cofnod 10, 29 Tachwedd 2017)

Dywedodd y Prif Weithredwr bod gwahoddiad wedi'i ddsbarthu i gyflwyno cynigion ar gyfer Trosglwyddo Ased Cymunedol yr eiddo yn Stryd Hir, gyda dyddiad cau ar 28 Chwefror 2018.

### **NODWYD.**

### (b) Penodi Swyddog Monitro (Cofnod 14, 29 Tachwedd 2017)

Dywedodd y Prif Weithredwr, yn dilyn trafodaethau, bod gan rywun ddiddordeb yn y swydd wag Swyddog Monitro fel y'i hysbysebwyd. Fodd bynnag, roedd trafodaethau yn parhau a'r gobaith oedd y gellid cyflwyno gwybodaeth am gamau pellach gerbron y cyfarfod nesaf.



## **NODWYD.**

### **5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

I ddechrau roedd y Cadeirydd wedi estyn croeso i Dr RM Plummer i'r cyfarfod fel Aelod newydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd bod Dr Plummer yn dod â chyfoeth o brofiad i'r Awdurdod, a'i bod yn edrych ymlaen at weithio gyda hi. Aeth y Cadeirydd rhagddi i ddweud ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau canlynol, yn ogystal â chyfarfodydd eraill, ar ran yr Awdurdod yn yr wythnosau diwethaf:

- Cyfarfod a drefnwyd gan Eluned Morgan AC i drafod adroddiad am yr heriau a wynebir gan Gymru wledig.
- Roedd Gweinidog yr Amgylchedd, Hannah Blythyn AC wedi ymweld â'r Parc Cenedlaethol ar 18 Ionawr, ac roedd trefniadau'r bore wedi'u dosbarthu i'r Aelodau er gwybodaeth. Barnai bod yr ymweliad wedi mynd yn dda a bod y Gweinidog wedi gadael gyda gwell dealltwriaeth o'r Parc Cenedlaethol, yr heriau a wynebir, a brwdfrydedd y staff.
- Brechwastau Gwaith a drefnwyd gan Gyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Undeb Amaethwyr Cymru.
- Hyfforddiant Cadeirydd, a gyflwynwyd i Aelodau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog ac a hwyluswyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

### **6. Adroddiadau cyfarfodydd gwahanol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried neu er gwybodaeth:

- (i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2017, 20 Tachwedd 2017 ac ar 13 Rhagfyr 2017;
- (ii) Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2017;

Dymunai'r Cynghorydd M Williams nodi, er nad oedd yn anffodus wedi gallu aros tan ddiwedd y cyfarfod o Banel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr, ei fod wedi cymryd rhan yn y drafodaeth ac wedi rhoi ei farn cyn gadael.

- (iii) Y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2017;
- (iv) Y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2017;
- (v) Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2017;
- (vi) Panel Penodiadau y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2017;
- (vii) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2017.

## **NODWYD.**



## 7. Penodi Aelod ar Amrywiol Bwyllgorau a Grwpiau

Yn dilyn ymadawiad Ms Chris Gwyther ar ddiwedd ei thymor fel Aelod, roedd angen llenwi nifer o swyddi gwag, a gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer y swyddi hyn.

**PENDERFYNWYD** penodi Dr RM Plummer ar y Pwyllgor Adolygu Gweithredol, Y Pwyllgor Cwynion, y Fforwm Gweithwyr a'r Gweithgor Strategaeth Datblygu Aelodau.

## 8. Cynllunio Cyllideb Ddrafft 2018/19

Roedd adroddiad y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Ariannol yn nodi'r cyllidebau Refeniw a Chyfalaf drafft ar gyfer 2018/19 a'r rhagamcanion ar gyfer 2019/20 i 2022/23, ardoll ddrafft 2018/19 ar Gyngor Sir Penfro, y Dangosyddion Materion Ariannol ar gyfer y rhaglen gyfalaf, a'r Strategaeth Buddsoddi a'r Datganiad Polisi ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2018/19.

Roedd y gwaith o ddatblygu cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft yr Awdurdod ar gyfer 2018/19 wedi'i wneud yn ystod cyfnod heriol parhaus i'r sector cyhoeddus gyda'r gostyngiad cyson blwyddyn ar ben blwyddyn yn y Grant i'r Parc Cenedlaethol a'r Ardoll ddilynol ar Gyngor Sir Penfro. Roedd y gyllideb a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2017/18 wedi dod i'r casgliad bod rhagolygon ariannol yr Awdurdod yn y dyfodol yn debygol o barhau'n heriol dros y blynyddoedd nesaf hyn wrth i'r toriadau cronus yn y cyllid craidd gael effaith. Roedd cwrdd â'r pwysau ariannol yn gofyn am ddulliau trylwyr o glustnodi arbedion effeithlonrwydd, gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gael ffrwd ariannu di-graidd, ac ail-flaenoriaethu gwariant o fewn y gwasanaethau.

Roedd yr adroddiad yn nodi strategaeth cyllideb yr Awdurdod a'r rhagdybiaethau allweddol oedd yn sail i'r gyllideb, fel y trafodwyd yn flaenrol gan yr Aelodau mewn gweithdai ar baratoi cyllideb. Rhagwelwyd y byddai gostyngiad o 5% yn y Grant craidd i'r APC a'r Ardoll ar gyfer 2018/19 ac ar gyfer 2019/20, ond roedd cadarnhad o hyn heb eto ddod i law. Nodwyd mai un o'r tybiaethau allweddol oedd codiadau cyflog o 2%, ond roedd gwybodaeth a dderbyniwyd yn ddiweddar oddi wrth y Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi awgrymu y byddai'r cytundeb cyflogau o bosibl ychydig yn uwch. Fodd bynnag rhagwelwyd y gellid talu am y cynnydd hwn mewn cyflogau o gronfa wrth gefn yr Awdurdod.

Hefyd roedd targed Llywodraeth y DU ar wariant cyhoeddus dros gyfnod y senedd hon yn golygu ei bod hi'n debygol y byddai gostyngiadau pellach yn y grant i'r Awdurdod yn y tymor canolig. Er y rhagwelwyd y byddai gostyngiad yn swm yr ariannu a ddyrannwyd gan Lywodraeth



Cymru i'r Parciau Cenedlaethol, roedd union faint y gostyngiadau hyn y tu hwnt i 2019/20 yn ansicr. Rhoddwyd ffigurau oedd yn dangos effaith gostyngiadau o 5% a 10% dros y cyfnod o bedair blynedd hyd at 2022/23, a byddai hyd yn oed yr isaf o'r ddau opsiwn hyn yn golygu heriau sylweddol i'r Awdurdod eu goresgyn wrth fantoli'r gyllideb. Rhagwelwyd y byddai parhau i gynnal gweithdai ar y gyllideb yn ddefnyddiol wrth glustnodi meysydd ar gyfer ail drefnu a llwyddo i reoli'r heriau cyllidebol a ragwelir, ac amlinellwyd yr arbedion a'r arbedion effeithlonrwydd a wnaed hyd yn hyn.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu manylion y gyllideb gyfalaf fyddai'n gyfanswm o £493,000 yn 2018/19, ac roedd yn cynnwys offer technoleg gwybodaeth newydd, deunydd esboniadol ar ardd furiog Caeriw, tai crwn Castell Henllys, prosiectau arbed ynni, adnewyddu'r fflyd cerbydau, a gwaith trwsio ar feysydd parcio. Gwnaed cais i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer tri prosiect cyfalaf ychwanegol yn ystod hydref 2017, ond nid oedd canlyniad y cais yn hysbys hyd yn hyn.

Nodwyd manylion am gronfeydd wrth gefn a ragwelir ar ddiwedd 2017/18, ynghyd â'r balansau rhagamcanol ar ddiwedd 2018/19 yn yr adroddiad. Roedd hyn yn dangos y byddai'r gwarged disgwylidig yn 2017/18 yn rhoi balans diwedd blwyddyn yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol o £1,085,000, fyddai wedyn yn gostwng, yn bennaf oherwydd cyllido rhywfaint o'r rhaglen gyfalaf, i £1,007,000 erbyn diwedd 2018/19. Yn yr un modd, ac am yr un rheswm, disgwylir i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf ostwng i £113,000 erbyn diwedd 2018/19. Nodwyd y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, sydd wedi'u neilltuo ar gyfer prosiectau penodol, a barnwyd bod y cronfeydd hyn yn briodol ar hyn o bryd, er y gallai newidiadau annisgwyl yn y sefyllfa ariannol ei gwneud yn ofynnol i'r rhain gael eu hadolygu ymhellach.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynglŷn â chyfnewid y fflyd â cherbydau trydan, dyfodol canolfan yr Awdurdod yng Nghilrhedyn a chronfeydd wrth gefn yr Awdurdod, ac atebwyd y cwestiynau hyn gan y swyddogion. Cymeradwyodd yr Aelodau y swyddogion am y modd y cafodd y gostyngiad mewn cyllid ei reoli, ac am yr adroddiad oedd ger eu bron oedd yn glir ac yn ddealladwy.

#### **PENDERFYNWYD:**

- cymeradwyo'r gyllideb ddrafft 2018/19, yn amodol ar nodi bod yr amcangyfrif o'r Grant Parc Cenedlaethol/Ardoll heb ei gadarnhau hyd yn hyn.
- nodi'r rhagamcanion ariannol ar gyfer 2019/20 i 2022/23.

(a) Yr Ardoll ar Gyngor Sir Penfro



Atgoffodd y Prif Swyddog Cyllid yr Aelodau bod Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, isadran 3, yn pennu'r modd o gyhoeddi'r ardoll i'w chodi ar Gyngor Sir Penfro. Roedd y datganiad canlynol yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

**Ardoll ar Gyngor Sir Penfro**



Rhaid i'r Awdurdod awdurdodi codi ardoll o £984,885 oddi wrth Gyngor Sir Penfro yn unol ag Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Rheoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru) 1995 OS 1995 Rhif 3019 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru)(Diwygio) 1996:

• y swm fydd ei angen i dalu am wariant yr Awdurdod yn y flwyddyn dan sylw yn y cyfrif Refeniw yw		£5,504,611
• gwneud y ddarpariaeth sy'n briodol i dalu am hapddigwyddiadau, a'r gwariant hwnnw i'w dalu o'r Cyfrif Refeniw		£Dim
• y swm sydd ei angen i sicrhau bod gweddill digonol gan yr Awdurdod yn ei Gyfrif Refeniw		£ Dim
• y swm sydd ei angen ar yr Awdurdod i dalu am unrhyw ddiffyg a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol		£ Dim
		-----
Is-gyfanswm		£5,504,611
YN LLAI O		
• Grant Adran 72	£2,806,922	
• Incwm a gredydir i'r Cyfrif Refeniw	£1,708,482	
• symiau eraill heb eu cynnwys uchod sy'n debygol o fod ar gael yn ystod y flwyddyn	53,566	£4,568,970
	-----	-----
<b>Yr ardoll sy'n ofynnol</b>		<b><u>£935,641</u></b>

Hysbyswyd yr Aelodau bod rhaid rhoi gwybod i Gyngor Sir Penfro beth yw swm yr ardoll swyddogol sy'n ofynnol erbyn y 15<sup>fed</sup> o Chwefror. Argymhellwyd bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau â'r trefniadau cyfredol o dderbyn 12 rhandal cyfartal misol ar y 12fed o bob mis calendr, neu cyn hynny, drwy drosglwyddiad banc.



**PENDERFYNWYD** awdurdodi ardoll o £935,641 (*neu swm priodol arall a benderfynir ar ôl derbyn cadarnhad am y cyllid net a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru*) ar Gyngor Sir Penfro am y flwyddyn 2018/19.

(b) Dangosyddion Cod Materion Ariannol

Roedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ystyried Cod Materion Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) wrth bennu cyllidebau blynyddol. Roedd y Cod Materion Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried y Dangosyddion Materion Ariannol sy'n cynnwys amcangyfrif o'r gwariant a chyllido a'r union wariant a chyllido, a'r terfynau ar y ddau.

Bwriad y dangosyddion hyn oedd ategu a chofnodi penderfyniadau a wneir yn lleol, ac nid cymharu un awdurdod yn erbyn y llall. Fodd bynnag, gan nad oedd gan yr Awdurdod unrhyw ddyledion yn awr ac nad oedd unrhyw fwriad ar hyn o bryd i fenthycu rhagor o arian gan fod y cynlluniau gwariant cyfalaf i'w hariannu naill ai gan gronfeydd refeniw, cymorth grant allanol neu dderbyniadau cyfalaf, nid oedd sawl un o'r dangosyddion yn berthnasol. Roedd yr adroddiad felly ond yn nodi'r dangosyddion hynny oedd yn berthnasol ar hyn o bryd, a gofynnwyd i'r Aelodau fabwysiadu'r Dangosyddion Materion Ariannol fel y'u cyflwynwyd.

Hefyd, cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid y Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2018/19 yn unol â'r canllawiau statudol ac i ategu'r system fenthycu ddarbodus. Roedd y Strategaeth hefyd yn ategu dogfen CIPFA "Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer a Nodiadau Canllaw Traws-Sector".

**PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau

- a) yn fabwysiadu'r Dangosyddion Materion Ariannol, fel y'u cyflwynwyd.
- b) yn cymeradwyo'r Strategaeth Fuddsoddi a'r Datganiad Polisi ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2018/19.

*[Nid oedd y Cyngorydd M Williams yn bresennol pan benderfynwyd ar yr eitem ganlynol.]*

## 9. Adnewyddu Yswiriant 2018/19

Dywedwyd mai'r broceriaid Marsh UK sy'n rheoli pob agwedd ar yswiriant yr Awdurdod gan gynnwys y broses adnewyddu. Trefnwyd yswiriant yr Awdurdod ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2015/16 i 2017/18 drwy ymarferiad tendro ar y cyd gan y tri Parc Cenedlaethol yng Nghymru, gan arwain at arbedion sylweddol yng nghyfanswm y premiwm i'r tri Pharc. O



dan amodau marchnad yswiriant mwy ffafriol, byddai'r tri Awdurdod fel rheol yn mynd allan yn awr ar ymarferiad tendro newydd ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2020/2021. Fodd bynnag, oherwydd bod amodau gwael y farchnad yswiriant wedi gwthio premiymau i fyny yn 2017, y cyngor gan Marsh UK oedd cadw'r polisiâu presennol a'u hymestyn am ddwy flynedd arall. Cytunwyd ar y trefniant hwn gan y ddau Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru, a cheisiwyd cymeradwyaeth yr Aelodau hefyd i'r strategaeth hon yn awr ar gyfer Parc Arfordir Penfro.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo ymestyn trefniadau yswiriant cyfredol yr Awdurdod ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20.

#### **10. Cynllun Corfforaethol 2018/19**

Dywedwyd ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol o dan y Mesur Llywodraeth Leol gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n ymarferol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Roedd y ddeddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi cynllun yn dangos sut fyddent yn cymryd camau tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a sut yr oedd wedi cymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn ei waith. Felly, er mwyn lleihau'r angen am ddyblygu gwaith, bwriadwyd i'r cynllun corfforaethol drafft gyflawni gofynion y ddau ddarn o ddeddfwriaeth drwy ddatblygu amcanion llesiant yr Awdurdod, a allai hefyd gael eu hystyried yn amcanion gwella.

Roedd y cynllun a gyflwynwyd yn parhau yn gynllun drafft, a gwahoddwyd yr Aelodau i gymeradwyo'r dull gweithredu a rhoi sylwadau ar y cynnwys. Rhagwelwyd y byddai fersiwn derfynol y Cynllun yn cael ei gyflwyno gerbron yr Aelodau i'w gymeradwyo fis Mawrth.

Gan ddiolch i'r swyddogion am y gwaith cynhwysfawr a wnaed hyd yn hyn, gwnaeth yr Aelodau rai awgrymiadau ychwanegol ynglŷn ag ystyriaeth fwy cynhwysfawr o gymorth yr Awdurdod i'r economi leol, yr agenda dadgarboneiddio, y gwaith sy'n cael ei wneud sy'n gwella, yn hytrach na dim ond diogelu, harddwch naturiol y Parc Cenedlaethol, yr agenda iechyd a llesiant, a phwysigrwydd cymunedau Cymraeg y Parc.

**NODWYD.**

#### **11. Ymgynghoriad ar Ddogfen Comisiwn y Gyfraith ar y Gyfraith Gynllunio yng Nghymru**

Dywedwyd bod Llywodraeth y Cynulliad wedi gwahodd Comisiwn y Gyfraith i adolygu'r posibilrwydd o symleiddio a chyfnerthu'r gyfraith gynllunio yng Nghymru, ac yn arbennig i wneud cynigion ar gyfer diwygiadau technegol.



Er bod swyddogion o'r farn bod cynigion Comisiwn y Gyfraith i'w cymeradwyo a'u cefnogi yn gyffredinol, gan roi cyfle i symleiddio'r system gyfredol sy'n gymhleth, roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at dri prif bryder y byddent yn dymuno i Gomisiwn y Gyfraith eu hailystyried. Y tri hyn oedd: gwneud yn glir yn y gyfraith y ddyletswydd oedd ar bob awdurdod statudol i ystyried goblygiadau eu gweithredoedd ar y Parciau Cenedlaethol ac yn arbennig y dibenion y cawsant eu dynodi ar eu cyfer; dim cyfuno caniatâd adeilad rhestredig a cheisiadau cynllunio mewn cais unigol cyfun, gan eu bod o'r farn y byddai hyn yn creu dryswch ac nid eglurder; a chynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn y rhestr o ymgymerydd statudol diffiniedig, gan roi'r esemptiadau perthnasol i ymgymryd â rhai gwaith (megis gwaith priffyrdd a gwaith asiantaeth arfordirol).

Roedd yr Aelodau yn cydnabod gwaith y Comisiwn o ran llunio'r adroddiad, a diolchwyd i'r swyddogion am baratoi ymateb trylwyr i'r ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD** diolch i Gomisiwn y Gyfraith am y cyfle i wneud sylwadau ar argymhellion yr ymgynghori a bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr Cyfarwyddyd a Chynllunio y Parc i ymateb i'r ymgynghoriad ar ran yr Awdurdod a hefyd fel rhan o gyflwyniad ar ran y tri Parc Cenedlaethol yng Nghymru.

## 12. Codi Arian

Roedd yr adroddiad hwn wedi'i rannu yn dair rhan, gan drafod creu endid elusennol genedlaethol i gefnogi Parciau Cenedlaethol y DU, newidiadau i'r model o gyllido'r Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol, a chreu endid elusennol lleol i gefnogi Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod wedi cytuno i gefnogi creu Partneriaeth Parciau Cenedlaethol yn 2015, sef cwmni i gynhyrchu incwm a chymorth masnachol i'r 15 Awdurdod Parc Cenedlaethol ledled y DU. Nodwyd bod y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol wedi bod yn gweithio i ymgysylltu â nifer o gwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol ac wedi llofnodi ei gontract cyntaf yn ddiweddar gyda Columbia Clothing. Roedd adborth gan y Bwrdd a staff y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol wedi nodi bod y mwyafrif o'r cwmnïau y cysylltwyd â hwy yn dymuno ymrwymo i gytundebau oedd yn seiliedig yn bennaf ar roi cymorth mewn-da. Er bod nifer o gwmnïau mawr yn barod i roi cymorth ariannol, byddent ond yn gwneud hynny i ymddiriedolaeth elusennol.

Roedd gweithgor i ystyried y mater wedi'i sefydlu, a byddai'r gweithgor hwn yn cyflwyno cynnig i'r 15 o Gadeiryddion APC gytuno arno mewn cyfarfod o Weithrediaeth Parciau Cenedlaethol y DU ar 20 Chwefror 2018. Gofynnwyd i'r Aelodau felly ddirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd i





gefnogi creu Ymddiriedolaeth Elusennol gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol y DU.

Holodd yr Aelodau sut fyddai unrhyw roddion ariannol yn cael eu rhannu ymhlith yr Awdurdodau, ac atebodd y Prif Weithredwr mai'r bwriad yw bod rhoddion yn cael eu rhannu'n gyfartal ymhlith y 15 Awdurdod, a rhoddodd sicrwydd iddynt y byddai'n rhaid i Brif Weithredwyr y Parciau Cenedlaethol hefyd gytuno ar unrhyw ddêl a wneir. Dywedodd Aelod arall pa mor bwysig yw rhodd cymorth, a chytunodd bod Ymddiriedolaeth Elusennol yn gyfrwng synhwyrol o fanteisio ar y mecanwaith hwn.

**PENDERFYNWYD** dirprwyo awdurdod i Gadeirydd yr Awdurdod i gefnogi bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol y DU yn creu Ymddiriedolaeth Elusennol.

O ran cyllido'r Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol, atgoffwyd yr Aelodau bod y cwmni wedi'i sefydlu gan rodd cychwynnol o £10,000 gan bob APC i dalu am y costau sefydlu a'r flwyddyn gyntaf o weithredu. Mae £10,000 arall gan bob APC yn rhoi digon o incwm i'r cwmni weithredu tan fis Hydref 2018.

Gan fod y model busnes cychwynnol yn seiliedig ar gynhyrchu incwm, cymerwyd y byddai cyfran o'r incwm hwn yn cael ei ddefnyddio i dalu costau'r Bartneriaeth. Fodd bynnag, gan fod unrhyw ddêl y cytunwyd arni gan y Bartneriaeth yn seiliedig ar gymorth mewn-da, roedd angen datblygu model gwahanol o ariannu'r Bartneriaeth yn y dyfodol. Awgrymwyd model tanysgrifio lle mae pob APC yn talu £10,000 y flwyddyn i dalu costau'r Bartneriaeth. Disgwylir y byddai'r cymorth mewn-da a dderbynnir drwy gytundebau a lofnodwyd drwy'r Bartneriaeth yn lleihau'r costau i bob APC mewn swm sy'n uwch na'r £10,000. Cynigiwyd treialu'r model hwn am dair blynedd cyn cynnal adolygiad trylwyr o'r Bartneriaeth.

**PENDERFYNWYD** cytuno i newid y modd o ariannu'r Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol drwy'r model tanysgrifio.

Yn olaf, bu'r Aelodau yn ystyried y cynnig i sefydlu ymddiriedolaeth elusennol i gefnogi'r gwaith ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro i alluogi arian gael ei gynhyrchu o ystod ehangach o ffynonellau. Byddai dibenion yr ymddiriedolaeth elusennol yn cyd-fynd â dibenion yr Awdurdod.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y materion sy'n ymwneud â sefydlu'r cyfryw ymddiriedolaeth wedi cael eu harchwilio mewn Gweithdy'r Aelodau yn ddiweddar, ac roedd yr adroddiad yn crynhoi'r manteision a drafodwyd.



**PENDERFYNWYD** cymeradwyo sefydlu ymddiriedolaeth elusennol lleol  
mewn egwyddor, cyn belled â bod yr Awdurdod yn cytuno ar ddogfennau  
cyfreithiol a memorandwm cyd-ddealltwriaeth, cyn cyflwyno cais i'r  
Comisiwn Elusennau.

